

Buddugoliaeth!

Wrth droi ein golygon at y Pentecost a thywalltiad grasol yr Ysbryd Glân ar ein byd manteisiwn eleni i bwyllo a chofio am Esgyniad Iesu a myfyrio ar ei ogoniant a'i hawl rasol i dywallt ei Ysbryd ar yr Eglwys ac ar y byd.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r darlun o fuddugwyr yn cael eu dyrchafu am eu llwyddiant mewn rhyw faes neu'i gilydd, boed ym myd gwleidyddiaeth neu chwaraeon, eisteddfod neu waith.

Bob blwyddyn, pan yn Ysgol Botwnnog yn Llŷn, byddem yn cael gwahoddiad ar Ddydd Iau Dyrchafael i fynd i oedfa yn eglwys Botwnnog dan arweiniad y Parch John Vevar.

Er ei bod yn ŵyl eglwysig, dydy Dydd Iau Dyrchafael ddim yn tueddu i gael llawer o sylw heddiw; ond eto i ddisgyblion Iesu Grist bu'n ddiwrnod pwysig.

Mae lle i gredu fod yr eglwys fore wedi dathlu'r ŵyl yma o'r cychwyn cyntaf, sef cofio Iesu yn symud o'r byd hwn i'r nefoedd.

Gwaith wedi ei gyflawni

Roedd yn ddyrchafiad buddugoliaethus. Dyrchafiad y Mab oedd wedi cymryd natur dyn a chyflawni gwasanaeth dros bechaduriaid ar groes drwy dalu iawn digonol drostynt. Prawf o'i lwyddiant a'i fuddugoliaeth dros bechod a'r bedd ydi ei atgyfodiad a'i esgyniad. Mae'r ddau beth yn arwyddo fod ei waith ar y ddaear wedi ei gyflawni.

Dyma eiriau Ioan yn ei lythyr cyntaf,

'Fy mhlant annwyl, dw i'n ysgrifennu hyn atoch chi er mwyn eich helpu chi i beidio pechu. Ond os bydd rhywun yn pechu, mae gynnwng ni un gyda'r Tad sy'n pledio ar ein rhan ni, sef Iesu Grist, sy'n berffaith gyfiawn a da. Fe ydy'r aberth wnaeth iawn am ein pechodau ni, ac nid dim ond ein pechodau ni, ond pechodau'r byd i gyd.'

Eiriolwr

Rydym yn gwybod am y swyddogaeth mewn llys barn lle mae un yn sefyll i gynrychioli ac amddiffyn rhywun arall. Bydd y person hwnnw yn eiriol dros, neu bledio achos, y person a gaiff ei gyhuddo o drosedd. Mae'r efengyl yn cyhoeddi'r newyddion da fod yr un sydd yn ein caru yn eistedd ar orsedd nefoedd, yn meddwl am ein lles ac yn pledio ein hachos ni. Mae ei eiriolaeth yn dod ar sail ei farw aberthol, digonol drosom.

awdurdod arall sy'n bod. Does gan neb na dim deitl tebyg iddo – yn y byd yma na'r byd sydd i ddod! Mae Duw wedi rhoi popeth dan ei awdurdod. Mae wedi'i wneud e yn ben ar y cwbl – er lles yr eglwys.'

Gwahoddiad

Dyma newydd bendigedig arall i ddilynwyr Iesu fod yr UN sydd drosom yn meddu'r fath awdurdod. Waeth beth fydd neu yw ein hamgylchiadau, mae yna un sydd yn ein deall ni a deall ein sefyllfa, yn alluog a pharod i ddelio â'n holl anghenion. Cofiwng felly eiriau awdur y Lythyr at yr Hebreaid,

'Felly gadewch i ni ddal ein gafael yn beth dyn ni'n gredu. Mae gynnwng ni Archoffeiriad gwych! – Iesu, Mab Duw, sydd wedi mynd i mewn at Dduw i'r nefoedd. Ac mae'n Archoffeiriad sy'n deall yn iawn mor wan ydyn ni. Mae wedi cael ei demtio yn union yr un fath â ni, ond heb bechu o gwbl. Felly gadewch i ni glosio at orsedd Duw yn hyderus. Mae Duw mor hael! Bydd yn trugarhau wrthon ni ac yn rhoi popeth sydd ei angen i ni pan mae angen help arnon ni.'

Gallwn ninnau ddweud wrthym ein hunain eto heddiw, gydag Ann Griffiths,


O fy enaid, gwêl addasrwydd Y Person rhyfedd hwn Dy fywyd mentra arno Ac arno rho dy bwn Mae'n ddyn i gydymdeimlo A'th holl wendidau i gyd Mae'n Dduw i gario'r orsedd Ar ddiabol, cnawd, a byd.

Parch R. O. Roberts

'Rhoddodd yr Arglwydd ei hun arwydd i ni... Cenhedlodd forwyn a beichiogodd ar fab, 'Duw gyda ni'. Disgynnodd i ddyfnderau'r ddaear i geisio'r defaid colledig, gwaith ei ddwylo, y rhai yr oedd ef ei hun wedi eu creu.

Yna esgynnodd i'r uchelderau, i roi ei hun a rhoi i'w Dad y ddynoliaeth hon oedd wedi ei ganfod ganddo, gan ddod ei hun yn flaenffrwyth Atgyfodiad y ddynol-ryw.'

Iranaeus o Lyon
(Yn erbyn heresiau: iii.19.3)



Profiad

Meddai Paul wrth eglwys Effesus

'Dw i hefyd am i chi sylweddoli mor anhygoel ydy'r nerth sydd ar gael i ni sy'n credu. Dyma'r pŵer aruthrol wnaeth godi'r Meseia yn ôl yn fyw a'i osod i eistedd yn y sedd anrhydedd ar ochr dde Duw yn y byd nefol. Mae'n llawer uwch nag unrhyw un arall sy'n teyrnasu neu'n llywodraethu, ac unrhyw rym neu